Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 11**

**Teitl: Adroddiad Cyllid – Mis 12 – 2023/24**

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I nodi |
| **Amseru / Timing** | Brys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Argymhellir bod y Bwrdd yn nodi Adroddiad Cyllid Mis 12. |
| **Risg / Risk** | Risg i enw da ac ariannol |
| **Cyllid / Finance** | Amh |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Llywodraethu ariannol Llais |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Amh |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Amh |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Alun Lloyd |
| **Dyddiad / Date** | 17 Ebrill 2024 |

## Cefndir / Background

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Llais 2023/24 yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Gorffennaf 2023. Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu i'r Bwrdd y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024 (M12).

Roedd Cynllun Ariannol 2023/24 yn nodi sut roedd Llais yn bwriadu cwrdd â'r ddyletswydd ariannol i sicrhau nad yw gwariant net yn fwy na'r cyllidebau adnoddau refeniw net.

Mae'r adroddiad cyllid hwn yn manylu ar gynnydd yn y flwyddyn gyda'r cynllun ariannol cymeradwy a pherfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y cynllun cymeradwy.

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn

## Manylion / Details

**Cynnydd y Cynllun Ariannol**

Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Ariannol, cadarnhaodd Adroddiad Cyllid Mis 6 a Mis 9 fod camau pellach wedi'u cymryd:

- Dirprwyaeth Gyllidebol

  Mae llythyrau Dirprwyo Cyllidebol wedi'u dosbarthu a'u llofnodi gan bob deiliad cyllideb, yn cadarnhau ffigurau'r gyllideb yn ogystal â manylu ar gyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

- Diweddariadau Cyllideb

  Mae'r prif ddiweddariadau cyllidebol, ers cymeradwyo'r cynllun, yn cynnwys:

  - Cyllid Dyfarniad Tâl

    Cynyddwyd cyllidebau cyflog i gwrdd â'r costau y mae'r cyllidebau tâl dirprwyedig wedi'u codi. Roedd y cynnydd hwn yn cyfateb i £259,000.

- Newidiadau i Gyllidebau Canolog

  Fel y nodwyd yn y cynllun roedd gan Llais hyblygrwydd yn y defnydd o'r cyllid hwn ar gyfer swyddi staff ychwanegol wrth i'w strwythur trefniadol gael ei gwblhau.  Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

  - Trosglwyddo Cyllideb Gyfieithu o Gyllid a Llywodraethu i Strategaeth £138,000
  - Trosglwyddo arian nad yw'n rheolaidd o danwariant o'r Rhanbarthau i Gronfeydd Heb eu Dyrannu £180,000

Yn unol â'r adran Rhagolygon Ariannol yn adroddiad Mis 6 mae newidiadau cyllidebol pellach a gymerwyd ymlaen yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ariannu costau ychwanegol a phrosiectau yn y meysydd a ganlyn:

- Contract CRM Capgemini £250,000

  Wrth weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru mae'n amlwg bod y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y buddsoddiad hwn yn annigonol.  Bydd y diffyg hwn o £250,000 ar gyfer 2023/24 yn cael ei ariannu o danwariant Llais.

- Prosiectau ac Asiantaeth

  Yng ngoleuni'r llithriad staff disgwyliedig, mae cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau, adolygiadau marchnata a llywodraethu, yn ogystal â defnyddio staff asiantaeth i lenwi bylchau yn y sefydliad.

**Perfformiad Ariannol Mis 12**

Mae'r perfformiad ariannol manwl ym Mis 12 ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Ym mis 12 mae'r perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyfateb i danwariant o £177,000 yn erbyn cyllidebau dirprwyedig (mae hyn yn gynnydd ar y tanwariant a ragwelwyd ar ddiwedd Mis 9 mis o £75,000).  Roedd Adroddiad

Cyllid Mis 11, a gyflwynwyd yng nghyfarfod ARAC ym mis Mawrth, yn cynnwys rhagolwg o danwariant o £139,00 ar ddiwedd y flwyddyn.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, y risg allweddol i'r tanwariant a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd y gallai'r tanwariant gynyddu. Yn benodol o amgylch yr arian a ddyrannwyd ganol blwyddyn ar gyfer prosiectau, adolygiadau marchnata a llywodraethu, yn ogystal ag ar gyfer TGCh. Y rhain wedyn oedd ffocws y cyfarfodydd misol manylach a fu'n ymwneud â'r meysydd gwariant penodol hyn, gyda'r nod o gael sicrwydd ynghylch yr archebion a godwyd, dyddiadau dosbarthu a gwariant cyn 31 Mawrth 2024.

Mae gwersi clir o berfformiad ariannol 2023/24, yn benodol ynghylch rheoli gwariant yn rhagweithiol, yn enwedig prosiectau nad ydynt yn rheolaidd. Yn ogystal, gwella diwylliant a thryloywder unrhyw ragdybiaethau a rhagolygon gan gydnabod bod rheoli a datgan tanwariant a ragwelir yr un mor bwysig â gorwariant a ragwelir.

Y prif amrywiadau ym mherfformiad 2023/24 yw:

- Tanwariant Tâl - £352,000

  Roedd y cynllun ariannol yn cynnwys cynnydd cynlluniedig sylweddol yn nifer y staff o 79.05 cyfwerth ag amser llawn (WTE) i 113.84. Er y nodwyd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi lleihau cyllid swyddi newydd ar gyfer llithriad disgwyliedig o 25% (eu bod yn rhagdybio mai 1 Gorffennaf oedd y dyddiad cychwyn) cydnabuwyd y disgwylir i'r dyddiadau cychwyn gwirioneddol fod yn hwyrach ac y byddai'r llithriad gwirioneddol yn fwy na'r hyn a dybiwyd gan Lywodraeth Cymru. Y llithriad hwn ar benodiadau swyddi newydd yw'r prif ysgogydd o danwariant cyflog yn 2023/24. Ar 31ain Mawrth 2024 roedd y staff mewn swydd yn cyfateb i 109.17 WTE yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o 114.44 WTE. Ym Mis 9 roedd y staff mewn swydd yn 101.25 WTE.

- Tanwariant Costau Teithio - £88,000

  Ers Covid mae nifer y teithio a wneir gan staff wedi lleihau'n sylweddol, gan arwain at danwariant yn erbyn pob tîm rhanbarthol. Ar hyn o bryd nid yw'r cyllidebau wedi'u hailosod. Bydd angen adolygu lefelau cyllideb teithio ar gyfer 2024/25 fel rhan o broses cynllunio ariannol 2024/25.

- Cynllun Rhyddhad Cynnar Gwirfoddol

  Roedd cynllun VER yn gyfle i Llais fynd i'r afael â gofynion newid ac ailgynllunio gwasanaethau. Yn unol â chylch gorchwyl a rheolau'r cynllun bu 5 unigolyn o fewn y sefydliad yn llwyddiannus yn eu cais i'r cynllun ac wedi gorffen eu cyflogaeth gyda Llais. Mae'r costau wedi'u cynnwys yn alldro 2023/24.

- Dadfeiliad

  Yn unol ag adolygu prydlesi llety ar gyfer IFRS16 mae'r ffigurau darpariaethau dadfeiliad a aseswyd yn flaenorol gan Bowys wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn unol â chyngor gan gydweithwyr Ystadau PCGC. Mae'r cynnydd mewn darpariaethau hefyd wedi'i gynnwys yn alldro 2023/24.

**Swyddi Newydd**

Fel y nodir uchod, rhagdybiodd y cyllid gan Lywodraeth Cymru lithriad o 25% ar gyllid, gan dybio dyddiadau cychwyn 1 Gorffennaf. Fel y nodwyd yn y gwahanol adroddiadau cyllid bu llithriad sylweddol o ran amserlenni recriwtio dros y rhagdybiaethau gwreiddiol, gyda llawer o swyddi newydd i'w llenwi yn y cyfnod o fis Tachwedd ymlaen. Disgwyliwyd y proffil diwygiedig hwn o benodiadau staff gan y byddai amser paratoi ar gyfer nifer sylweddol o swyddi newydd yn arwain at oedi gan y byddai creu proffiliau swyddi a disgrifiadau swydd newydd, gan gynnwys gwerthusiad llawn o'r Agenda ar gyfer Newid, cyn recriwtio yn golygu amseroedd paratoi hirach o gymharu â recriwtio i swyddi gwag ar swyddi sefydledig.

Mae nifer y staff sydd mewn swydd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn:

- Mis 6 – 90.95 WTE
- Mis 9 – 97.08 WTE
- Mis 11 - 106.45 WTE
- Mis 12 - 109.17 WTE

Bu timau Cyllid ac Adnoddau Dynol yn cydweithio'n agos i fonitro cynnydd y swyddi newydd hyn gan fod hwn yn un o'r newidynnau allweddol yn y sefyllfa ariannol ac wrth ddarparu gwasanaethau.

**Rheoli Arian Parod**

Fel y nodwyd yn y Cynllun Ariannol, mae angen cyllid ychwanegol i reoli arian parod o fewn terfynau goddefiant. Mae'r llythyr cyllid yn cadarnhau hyn fel:

> "Ni ddylai cymorth grant arian parod gael ei dynnu i lawr cyn bod angen gan fod cadw symiau gormodol o arian parod yn ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus. Rhaid i unrhyw gymorth grant heb ei wario a gedwir bob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn gael ei gadw o fewn 4% a 2% yn y drefn honno o gyfanswm y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno."

Ar ddiwedd mis Mawrth roedd balans arian parod y banc yn £72,000, mae hyn yn cyfateb i 1.1% o'r £7,747 o gymharu â tharged diwedd blwyddyn Llywodraeth Cymru o 2% (ar ddiwedd Chwefror roedd y perfformiad yn falans o £594,000 sy'n cyfateb i 7.7%).

Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddent yn addasu'r dyraniad ar gyfer tanwariant a ragwelwyd, nododd ei bod yn hollbwysig cyrraedd y targed balans arian parod o 2%. Yn unol â hynny, gostyngwyd ffigur arian parod Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth i gyrraedd y targed nid o reidrwydd i dynnu arian parod hyd at y terfyn dyrannu arian parod.

**Dyraniad Cyllideb 2024/25**

Roedd papurau Bwrdd mis Ionawr yn cynnwys papur ar Ddyraniad Cyllid Drafft 2024/25. Roedd y papur hwnnw'n seiliedig ar asesiad o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024/25 a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr Dyraniad y Bwrdd Iechyd. I grynhoi, roedd yn cynnwys dyraniad rhagamcanol o £8.266m (ynghyd â dyraniad Agenda ar gyfer Newid 2024/25). Roedd y papur yn cadarnhau mai ymagwedd Llais, wrth gadarnhau cyllid gan Lywodraeth Cymru, fyddai ceisio setliad nad yw'n waeth nac yn well na setliadau ar gyfer cyrff sector cyhoeddus eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, yn benodol ddim gwaeth na sefydliadau'r GIG "a gynhelir", o fewn y cyd-destun ein rôl a'n cylch gwaith o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o ddeialog barhaus gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd papur Dyraniad Cyllid Drafft 2024/25 i'w Tîm Partneriaeth ac mae wedi bod yn destun trafodaeth sylweddol.

Hyd yn hyn mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd y dyraniad yr un fath â ffigur y gyllideb yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2024/25, hynny yw, £7.603m ac y dylid ymdrin ag unrhyw heriau ariannol sy'n codi o'r setliad hwn "o fewn y flwyddyn". Mae swyddogion Llais wedi tynnu sylw at eu pryderon ynghylch y ffigurau ac am amwysedd yr awgrym "o fewn y flwyddyn" hwn. Mae swyddogion Llais wedi pwysleisio er y gallai "o fewn y flwyddyn" fod yn briodol i adran fewnol o Lywodraeth Cymru, mae'n amhriodol, yn nhermau llywodraethu ariannol, i gorff annibynnol a noddir yn statudol.

Mae'r trafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn heriol. Er nad ydynt wedi herio'r ffigurau a'r tybiaethau yn ein papur Dyraniad Cyllid Drafft 2024/25 a gyflwynwyd, nid ydynt wedi gallu egluro pam nad yw'r lefelau ariannu wedi cynyddu o gyflogau a phrisiau 2022/23 i gyflogau a phrisiau 2024/25, hynny yw, dwy flynedd o ymgodiadau.

Yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth mae swyddogion Llais wedi gofyn i'r cyllid hwn gael ei uwchgyfeirio. Hyd yma nid yw hyn wedi digwydd.

Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, ar ddeall y cefndir i benderfyniadau ar gyllid 2024/25 yn ogystal â'r egwyddorion i'w cymhwyso mewn cylchoedd dyrannu yn y dyfodol, er enghraifft cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog Agenda ar gyfer Newid sy'n gyson â'r holl gyflogwyr eraill gyda staff a gyflogir ar Delerau ac Amodau Agenda ar gyfer Newid. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bartneriaeth gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar 26 Ebrill 2024.

Yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith, dylai Llythyr Dyrannu Llywodraeth Cymru fod wedi'i gyhoeddi o fewn mis i gytuno ar Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2024/25 yn y Senedd. Felly dylai'r Llythyr Dyrannu fod wedi'i anfon cyn diwedd mis Mawrth.
Mae swyddogion Llais wedi tynnu sylw cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru at y ffaith bod angen anfon llythyr dyrannu cyn y gall Llais gyflwyno Cynllun Ariannol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Bwrdd:

- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn